BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 17, 2026

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth**
**Nos Fawrth, Mawrth 17, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Llion Williams, Aaron Roberts, Robin Jones, Meurig Ashton. Delyth Lloyd Griffiths, Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig Wyn Rowlands aelod newydd.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Karen Goswell, Peredur Jenkins.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 17, 2026**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 17, 2026**

Eitem 5. Eitem 10.h. Ni dderbyniwyd ymateb i'n hysbysiad am Glerc, er mai 31 Mawrth yw dyddiad cau.

Cafodd yr hysbyseb ei roi ar wefan Cyngor Gwynedd.

Penderfynwyd rhoi'r hysbysiad yn Llygad y Dydd ac ar Facebook Llanfachreth.

Eitem 10.d. Beth yw'r diweddaraf ynglŷn â chlirio llwybrau y gymuned?

Penderfynwyd rhoi hysbysiad am berson yn Llygad y Dydd.

Eitem 11.a. Llythyr (16/3/2026) oddi wrth Swyddog, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni fydd yn dod i'n cyfarfod heno. Mi fydd yn cysylltu â ni yn fuan.

Eitem 8.d. Llythyr (3/3/2026) oddi wrth Neuadd Llanfachreth yn gofyn am weddill yr arian sy'n cyfrif rhif 61400277, sef £162.29, a'i drosglwyddo i gyfrif y Cyngor Cymuned i dalu am ffens diogelwch ar ben wal wrth y llwybr sy'n arwain at y Neuadd.

Penderfynwyd trosglwyddo'r arian a chau'r cyfrif.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (18/2/2026) oddi wrth Mr John Randall Evans, Florida yn holi am wybodaeth ar hanes Mr David Evans pwy symudodd i Pennsylvania yn ystod 1644-1683.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (21/2/2026) oddi wrth Mrs Buddug Hughes yn rhoi gwybod mi fydd yn cysylltu â'r gŵr i roi y wybodaeth mae ei angen. Mae hyn ar ôl i Gerallt (brawd Mrs Hughes) a Karen bod mewn cysylltiad â Mrs Hughes.

b. Llythyr (19/2/2026) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gyda gwybodaeth ynghylch y tâl, treuliau a buddion i aelodau'r Cyngor ar gyfer 2026-27. Maent angen y wybodaeth cyn Medi 30.

Mae lwfans o £156 a £52 ar gyfer costau ffôn ac ati i'r aelodau.

Os mae aelod yn gwrthod y taliad mae rhaid rhoi gwybod i'r Clerc yn ysgrifenedig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd nid oedd yr aelodau am dderbyn y taliad.

c. Llythyr (26/2/2026) oddi wrth Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ar 2-6/3/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (3/3/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant yn yr wythnos dechrau Mawrth 9.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (10/3/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant yn Mawrth – Mehefin.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (5/3/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent yn lansio Maniffesto ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref cyn yr etholiad i'r Senedd ym mis Mai.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (6/3/2026) oddi wrth Guthrie Jones & Jones yn rhoi gwybod mae'r Cyngor Cymuned yn rhan o'r Legal Charge ynglŷn â Neuadd Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r Cyngor penodi twrnai i ddelio gyda'r mater, feel mae llythyr Guthrie Jones & Jones yn ei awgrymu.

f. Llythyr (13/3/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd yn rhoi gwybod bydd ffordd i'r dwyrain o Bont ar Felau i'r gogledd ddwyrain o Braich y Fedw, Rhydymain ar gau ar 14/4/2026 i gerbydau i wneud gwaith amnewid polyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (24/2/2026) yn croesawu ni i ddigwyddiad Dydd Gwyl Dewi yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd bydd yn cymryd lle rhwng 10.00yb a 2.30yp a digwyddiad rhwng 6.00yh a 8.00yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (24/2/2026) yn rhoi gwybod maent angen gwybod am safleoedd a allai fod yn addas i'w datblygu a'u gwarchod o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Maent angen gwybod cyn 11/5/2026. Mae hyn yn rhan y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer yr Awdurdod – sef Cynllun Datblygu Lleol Eryri 3.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (26/2/2026) yn cynnwys linc i recordiad o gyfarfod Fforwm y Cymuned cynhalwyd ar 5/2/2026 yn ymwneud â Cynllun Datblygu Lleol 3.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Materion Ariannol**

a. Bil (17/2/2026) am £224.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor a'r costau am gynnal a chadw ein gwefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (24/2/2026) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am ein rhodd ariannol i Urdd Meirionnydd.

c. Cerdyn (24/2/2026) oddi wrth Pwyllgor Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd ariannol.

ch. Llythyr (26/2/2026) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan Cymru yn diolch am ein rhodd ariannol.

d. Llythyr (3/3/2026) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Bentref Llanfachreth yn diolch am ein rhodd ariannol.

Cafwyd wybod gan Gerallt ni chafodd y siec ei dderbyn gan y Banc.

Penderfynwyd rhoi siec newydd i'r Neuadd.

dd. Llythyr (5/3/2026) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd ariannol.

e. Llythyr (10/3/2026) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd ariannol.

f. Llythyr (5/3/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar beth maent yn ei wneud a gwasanaeth maen yn ei roi . Amgáu mae ffurflen i ail ymaelodi a'r ffi yw £188.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau
Penderfynwyd talu'r ffi.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/2/2026: £162.29.
Balans yn y banc ar 29/2/2026: £6,514.47.

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

a. Beth yw diweddaraf y Cae Chwarae wrth yn hen ysgol Llanfachreth?
Penderfynwyd gwneud ymoliadau gydag Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r diweddaraf ynglŷn â'r Cae Chwarae.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Wedi gwneud ymoliadau ynglŷn cyflwr ffens bren sydd mewn cyflwr drwg iawn yn ardal Neuadd Brithdir, derbyniwyd llythyr (16/3/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mai Neuadd Brithdir sy'n gyfrifol am y ffens o amgylch y Neuadd. Hefyd, Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y ffens wrth ochr y blwch post ac mi fydd gwaith i osod ffens newydd yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (10/3/2026) oddi wrth Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd wedi ail-agor.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

c. Coed y Brenin – mae Grŵp Caru Coed y Brenin wedi rhoi aisi fewn i redeg y ganolfan. Bydd y tenant llwyddiannus yn cael gwybod ym Mis Awst beth fydd y canlyniadau.

d. Ardal Hufenfa Rhydymain – mae Cyfarfod ar y safle yn cael ei drefnu ar hyn o bryd i drafod diogelwch yn y lleoliad. Mae Mabon ap Gwynfor yn mynychu y Cyfarfod gydag etholwyr yn yr ardal i drafod y sefyllfa gyda Delyth ac Alan Jones Evans Cynghorydd ardal Llanuwchllyn.

dd. Datblygiad Tai Ysgol Llanfachreth – trafodwyd materion lleol gan gynnwys y defnydd o'r cae dros y ffordd ac ardal parcio ceir wrth y tai Newydd arfaethedig. Bydd cyfle i drafod ymhellach gyda swyddogion Gwynedd aro i'r cynlluniau cael eu gorffen.

e. Mae busnesau lleol wedi cael cymorth i ddarganfod beth fydd eu taliadau yn y dyfodol gan fod trefnu busnes wedi cael ei adolygu gan y Swyddfa Drethi cenedlaethol yn ddiweddar.

Llofnod: Dyddiad: